

# Cyngor Cymuned Llanbadrig Community Council

Cofnodion o gyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 19/1/2015  
Minutes of the meeting held on Monday evening 19/1/2015

## Presennol / Present:

Mr Derek Owen (Cadeirydd/Chair)	Mr Elfed Jones	Mrs Julia Dobson
Mrs Marilyn Hughes	Mr Dei Owens	Mr David Livingstone
Mrs Carys Davies	Mr Ricky Hughes	Ms Rose Griffiths

## Cynghorwyr Sirol / County Councillors:

Cyng./Cllr Wil Hughes

## Yn Bresennol / In Attendance:

Carli Evans-Thau (Clerc / Clerk)	Eira Parry (Cyfieithu / Translation)	Mr Dewi Williams
----------------------------------	--------------------------------------	------------------

## Ymddiheuriadau / Apologies:

Cyng./Cllr Aled Morris Jones	Mr Tony Hughes	Mr Jack Longman
------------------------------	----------------	-----------------

## 1 Croeso / Welcome

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Derek Owen a diolchwyd i bawb am fod yn bresennol.  
*Derek Owen welcomed everyone to the meeting and thanked them for their attendance.*

## 2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Cynllunio / Planning - Wil Hughes  
Wylfa Newydd – Julia Dobson

## 3 Mr Dewi Williams

Croesawyd Mr Williams i'r cyfarfod a diolchwyd iddo am ddod i Gemaes i gwrdd â'r Cyngor. Pwrpas y gwahoddiad oedd trafod yr opsiynau posib ar gyfer dyfodol y toiledau yn stryd Cemaes. Deallwyd ganddo fod dau opsiwn mewn difrif sef un ai prynu'r adeilad, neu ystyried les hirdymor. Dyma sydd wedi ei fabwysiadu gan gymunedau eraill ym Môn er mwyn sicrhau dyfodol eu cymwysterau.

Nodwyd bod angen peth gwariant ar yr adeilad. Cafwyd wybod efallai y byddai modd derbyn grant cyfalaf er mwyn moderneiddio'r adeilad e.e. gosod drysau 'turnstile', ac y byddai unrhyw incwm o'r rhain yn gymorth i'r Cyngor Cymuned tuag at y costau rhedeg. Byddai cynnig les o 100-125 o flynyddoedd gyda'r amod bod y cyfleusterau yn cael eu cadw ar agor am o leiaf tair blynedd.

Cytunwyd y byddai modd i doiledau'r stryd gael eu cadw ar agor drwy'r flwyddyn a thoiledau'r traeth yn dymhorol yn dibynnu ar yr angen.

Fe ddiolchodd y Cyng. Wil Hughes i Mr Williams am ddod i'r cyfarfod ac fe esboniodd cefndir Cronfa Padrig gan bwysleisio nad oedd yr arian gan y Cyngor i'w wario, fel y mae llawer yn ei feddwl. Ategwyd ar ran yr aelodau eu bod yn ddiolchgar am y cyfle i drafod gwahanol opsiynau er mwyn sicrhau cyfleusterau i bobl leol ac ymwelwyr mewn pentref sydd yn ddibynnol ar dwristiaeth i'r ardal.

Tra bod Mr Williams yn bresennol, manteisiwyd ar y cyfle i drafod materion eraill oedd yn ymwneud a'i adran yn y Cyngor Sir sef Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

Nodwyd bod peth trafod yn y gorffennol ynglŷn â'r maes parcio yn Lon Glascoed.

Daethpwyd a phryder a gofid yr aelodau am ddiffyg croesfan ger yr Ysgol at sylw Mr Williams, ac fe nodwyd bod Wil Hughes eisoes wedi bod mewn trafodaethau a Mr Huw Percy. Fe gytunwyd na fyddai ail agor y 'subway' yn opsiwn a bod angen edrych mewn manylder ar groesfan. Mae'n debyg y byddai mwy o blant a rhieni yn cerdded i'r Ysgol petai groesfan, yn hytrach na mynd yn y car. Byddai hyn yn lleihau'r nifer o geir yn parcio ger yr Ysgol. Cydnabyddwyd bod y pentref wedi tyfu ac wedi newid yn y blynyddoedd diwethaf a

bydd poblogaeth y pentref a'r nifer o blant yn yr Ysgol yn newid eto tra bod Wylfa Newydd yn cael eu hadeiladu. Mae angen ystyried opsiynau cyn i rywun cael anaf dirifol neu waeth.

*Mr Williams was welcomed to the meeting and thanked for coming to meet with the Council. The purpose of the invitation was to discuss the options available for securing the future of the toilets on the high street. It was understood that there were two real options, the first being the purchase of the building, the second being consideration of a long term lease on the building. This is what has been adopted by other communities in order to safeguard the future of their facilities.*

*It was noted that some expenditure is required on the building. The members were informed that a grant may be available to modernise the building e.g. turnstile doors, and that any income from them would go the community council to support the running of the facility. The offer of a 100-125 year lease would be on condition that the facilities are kept open for a minimum of three years.*

*It was agreed that there would be a possibility of the street toilets staying open all year round, and the beach toilets being open only seasonally.*

*Cllr Wil Hughes thanked Mr Williams for attending the meeting, and explained the background of Cronfa Padrig, emphasising that the Council does not have the money to spend as thought by many. He stated that the council were grateful for the opportunity to discuss different options to ensure that facilities remain available for local people and visitors in a village so dependent on tourism.*

*As Mr Williams was present, members took the opportunity to discuss other matters relating to his department – Highways, Waste and Property.*

*It was noted that some discussion had taken place in the past regarding the car park on Glascoed Road.*

*The members' anxiety and concern regarding the lack of a safe crossing by the school was brought to the attention of Mr Williams, an dit was noted that Wil Hughes has been in discussions with Mr Huw Percy. It was agreed that re-opening the subway was not an option and that there is a need to look into the matter in detail. It was anticipated that more children and parents would walk to school should there be a crossing rather than going in the car. This in turn would reduce the number of cars and alleviate parking issues. It was accepted that the population of the village has grown and changed over the last few years and that the population and number of pupils at the school will change again when Wylfa Newydd is built. Options need to be considered before someone suffers a serious injury or is killed.*

#### **4 Cofnodion Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir. Cynigwyd gan Ricky Hughes, eiliwyd gan Carys Davies.

*The minutes were accepted as a true record. Proposed by Ricky Hughes, seconded by Carys Davies.*

#### **5 Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

##### **5.1 Mainc y Cae Chwarae / Play Area Bench**

Mae'r fainc dal i ddisgwyl cael ei thrin / *The bench is still waiting to be repaired.*

##### **5.2 Hen Waith Brics / Old Brick Works**

Fe gytunwyd y dylid gosod y gwaith i gwmni lleol ac fe ofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Hampson Lewis i gadarnhau.

*It was agreed that a local company should be awarded the contract and the Clerk was asked to contact Hampson Lewis to confirm.*

##### **5.3 Bonc y Môr**

Nid oedd diweddariad ar y prosiect / *there were no updates on the project.*

#### **5.4 Asbestos Posib / Possible Asbestos**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydnabod pryder y Cyngor ac fe fyddent yn ymchwilio i'r mater.

*Natural Resources Wales have acknowledged the Council's concerns and will be looking into the matter.*

### **6 Cyllid / Finance**

#### **6.1 Adroddiad y Pwyllgor / Finance Committee Report**

Yn absenoldeb Tony Hughes, cafwyd adroddiad cryno gan Marilyn Hughes. Wedi derbyn prisiau am y gwaith o dorri gwair yn y gymuned, mae'r pwyllgor wedi penodi Mr Jack Longman i dorri gwair y Fynwent a'r Cae Chwarae, a Mr Dick Parry i dorri'r llwybrau. Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol yn ymwneud a'r cytundeb ar gaffi'r traeth ac fe ofynwyd i'r Clerc gysylltu â'r cyfreithiwr eto.

*In the absence of Tony Hughes, Marilyn Hughes gave a short report following the last meeting. Having received tenders for the grass cutting contracts, the committee have awarded the work in the play area and cemetery to Mr Jack Longman, and the footpaths to Mr Dick Parry. Those present were updated with regard to the present situation of the beach café contract. The clerk was asked to contact the solicitor for a further update.*

#### **6.2 Cyllideb a'r Briseb / Budget and Precept**

Dosbarthwyd copi o'r gyllideb i'r holl aelodau oedd yn bresennol ac fe gafwyd esboniad ohoni gan Marilyn Hughes. Nodwyd bod angen edrych mewn manylder ar gytundebau ac incwm y Cyngor er mwyn sicrhau bod gwell rheolaeth a bod y Cyngor yn gwneud y mwyaf o'r opsiynau a'r cyfleoedd sydd ar gael.

Argymhellwyd gan y pwyllgor cyllid bod y Cyngor yn codi archeb o £25,000, byddai hyn yn codi'r dreth 51% (o 50c yr wythnos i 80c yr wythnos). Roedd yr aelodau presennol yn cytuno'n unfrydol a'r argymhelliad.

*A copy of the proposed budget was distributed to all members present and a brief explanation was given by Marilyn Hughes. It was noted that there is a need to look in detail at the contracts and income available to the Council to ensure that they are better managed to ensure the best options and opportunities for the Council*

*It was recommended by the finance committee that the Council raise a precept of £25,000; this would be an increase in 51% in rates (from 50p a week to 80p). All members present unanimously agreed to accept the proposal.*

#### **6.2 Rheoliadau Ariannol / Financial Regulations**

Nodwyd y newidiadau arfaethedig yn y ddogfen ac fe'u mabwysiadwyd. Cynnig Marilyn Hughes, eilio Julia Dobson.

*The proposed changes to the document were noted and adopted. Proposed by Marilyn Hughes, seconded Julia Dobson.*

### **7 Cynllunio / Planning**

#### **7.1 Penderfyniadau / Decisions**

Cafwyd wybod bod y Cyngor Sir wedi gwneud y penderfyniad canlynol -

*The County Council confirmed the following decision –*

- 30 Gwelfor – Caniatad / *Granted*
- Sea Breeze - Caniatad / *Granted*
- Bron Wendon - Caniatad / *Granted*

#### **7.2 Ceisiadau / Applications**

Roedd un cais i'w drafod sef cais am farn sgrinio ar gyfer tyrbîn Nant y Fran ar ran Cwmni Cymunedol Talybolion. Nodwyd bod cymuned Cemaes yn rhan o'r cais yma ac y byddai budd cymunedol petai'r cais yn cael ei ganiatáu. Nodwyd bod y cais wedi ei drafod ym Medi 2011 ac nad oedd sylw wedi ei gofnodi pryd

hynny. Cytuno y dylid gofyn am gymorth cyfreithiol gan Lynn Ball i gadarnhau sefyllfa'r Cyngor. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r adran gynllunio i esbonio'r sefyllfa.

*There was one application to discuss – screening opinion for a wind turbine at Nant y Fran on behalf of Cwmni Cymunedol Talybolion. It was noted that the Cemaes community was part of this venture and that there would be significant community benefit should permission be granted. It was noted that the same application had been discussed in September 2011 and that no comment had been recorded at that time. It was agreed to ask for legal advice from the monitoring Officer Lynn Ball to clarify the situation. The clerk was asked to contact the planning authority to explain the situation.*

## **8 Gohebiaeth / Correspondence**

8.1 Cafwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn nodi bod llwybr 53 yn cau dros dro tra bod gwaith i'r wylfan yn cael ei gwblhau.

*A letter from the County Council confirmed that footpath No 53 would be temporarily closed whilst work to the harbour viewing area was completed.*

8.2 Cafwyd gwybodaeth am enwebiadau ar gyfer anrhydeddau blwyddyn newydd (2016)

*Information was made available for the new Year's Honours List 2016.*

8.3 Nodwyd bod digwyddiad cyhoeddus yn cymryd lle ddiwedd Ionawr yn y Llyfrgell er mwyn dosbarthu gwybodaeth am y prosiect Mynediad i Bawb.

*It was noted that a public event was to take place at the library at the end of January in order to distribute and disseminate information on the Access for All project.*

8.4 Dwr Cymru / Welsh Water –

Cafwyd e-bost gan Dwr Cymru yn amlinellu eu cais i newid y system trin carffosiaeth ac yn gofyn am wybodaeth am ddefnyddwyr y môr yng Nghemaes yn ystod y gaeaf. Roedd yr e-bost yma eisoes wedi ei anfon ymlaen i'r aelodau cyn y cyfarfod. Trafodwyd y cais a nodwyd gofid a phryder yr aelodau a thrigolion y pentref.

- Mae tymor twristiaeth Cemaes drwy gydol y flwyddyn, yn benodol o fis Mawrth ymlaen,
- Mae'r Cyngor wedi cwblhau peth gwaith i'r toiledau er mwyn sicrhau nad oes dwr llygredig yn mynd i'r môr
- Mae nifer o bobl leol, ymwelwyr a'u teuluoedd yn defnyddio'r traeth/mor drwy'r flwyddyn
- Mae'r faner las ar y traeth yn bwysig iawn i dwristiaeth ac economi'r ardal leol
- Mae pryder am fywyd gwylt yr afon a'r môr

Roedd gwrthwynebiad chwyrn i gais Dwr Cymru i leihau'r driniaeth i garffosiaeth ardal Llanfechell rhwng Medi a Mai.

*An email was received from Welsh Water outlining their application to change the sewerage treatment system and asking for information on those using the sea during the winter months. This email had already been circulated to the members before the meeting. The application was discussed and concerns raised by members and residents noted.*

- *The tourism season in Cemaes is all year round, specifically from March onwards*
- *The Council has completed major works to the toilets to ensure no polluted water reaches the sea*
- *A large number of local people, visitors and their families use the beach/sea all year round*
- *The blue flag on the beach is very important to tourism and the local economy*
- *There was concern for the wildlife both in the river and at sea.*

*There was strong objection to Welsh Water's application to reduce treatment to sewerage from Llanfechell between the months of September – March.*

## **9 Unrhyw Fater Arall / Any Other Business**

### **9.1 Grŵp Cynefin Group -**

Cadarnhawyd mai mewn egwyddor yn unig, ac yn seiliedig ar y wybodaeth a gafodd ei gyflwyno yn y cyfarfod yr oedd y Cyngor yn gefnogol i'r prosiect. Wedi gweld cynlluniau mwy manwl, roedd gan drigolion y pentref ac aelodau'r Cyngor bryderon am y datblygiad.

*It was confirmed that it was in principle, and based on the information presented at the meeting that the Council were supportive of this project. Having seen more detailed plans, village residents and Council Members alike have reservations and concerns about the development.*

### **9.2 Cae Chwarae Cemaes Play Area**

Cafwyd diweddariad gan Rose Griffiths am y datblygiadau yn y cae chwarae. Cadarnhawyd bod yr arwyneb diogelwch newydd i'w gosod yn yr wythnosau nesaf. Trafodwyd y posibilrwydd o werthu'r hen deils am gyfraniad tuag at ddatblygiadau pellach. Nodwyd bod Cemaes in Bloom eisiau rhai ohonynt.

Bydd clo newydd ar gyfer y 'zip wire' wedi ei gwblhau yn fuan - aiff Elfed Jones i'w hatgoffa.

Nodwyd bod darn o goncrid angen ei symud o'r cae chwarae ond nad oedd modd cael peiriannau ato ar hyn o bryd. Cytuno dylid gadael y teils rwber o'i amgylch ar hyn o bryd.

*Rose Griffiths gave an update on the developments at the play area. She confirmed that the new safety surfacing is to be installed in the next few weeks. The possibility of selling the old tiles for a contribution towards the play area was discussed. It was noted that Cemaes in Bloom had asked for some.*

*Elfed Jones would chase up the new hook and lock for the zip-wire.*

*It was noted that there was a piece of concrete that needed to be removed, but at present it is not possible to gain access with machinery. It was agreed to leave the rubber tiles around it for now.*

### **9.3 Clwb Cymdeithasol Wylfa Sports and Social Club**

Deallwyd bod yr adeilad i'w ddimchwel yn fuan, a'i fod yn ddyletswydd ar Horizon i gynnig adeilad newydd i'r grŵp. Fodd bynnag nid yr y Cyngor Sir yn fodlon gyda'r cais cynllunio am adeilad o'r fath os nad oes cynllun cadarn yn ei le i gynnal yr adeilad yn y dyfodol. Penderfynwyd y byddai'r Cyngor yn trafod ymhellach petai angen on ar hyn o bryd mai mater i'r pwyllgor a'r adran gynllunio ydoedd.

*It was understood that the building was soon to be demolished and that Horizon has a duty to provide a similar building for the use of the club. However, the County Council are unhappy with the planning applications as there is no sustainable funding plan in place to maintain the building. It was agreed that the Council would discuss further should the need arise, but at present this was a matter for the Sports and Social club and the planning department.*

### **9.4 Cwmni Cemaes – nodwyd bod swyddog i'r ganolfan wedi ei benodi bellach.**

*It was noted that an officer for the heritage centre has been appointed.*

## **10 Wylfa Newydd**

Nodwyd bod y Cyngor yn siomedig iawn gyda phenderfyniad y Grid Cenedlaethol i osod peilonau newydd ar draws yr Ynys. Cytuno trefnu cyfarfod gyda chynrychiolydd o GC i drafod ymhellach.

*It was noted that the Council were very disappointed with the National Grid's decision to erect new pylons across the Island. It was agreed to contact a representative of NG to arrange a meeting.*

## **11 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Chwefror 16, 2015, am 7 o'r gloch yn y llyfrgell.

*The next meeting will be on Monday evening February 16, 2015 at the library for 7pm.*

*Daeth y cyfarfod i ben am 9.15 o'r gloch. / The meeting closed at 9.15pm.*

CET1/2015